**DWLP 01**

Senedd Cymru | Welsh Parliament

**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol | Culture, Communications, Welsh Language, Sport, and International Relations Committee**

**Datblygu'r ddarpariaeth Gymraeg ôl-16 |Development of post-16 Welsh language provision**

Ymateb gan Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol | Evidence from Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Diolch am y cais i gyflwyno tystiolaeth i'r Pwyllgor ynghylch ei ymchwiliad i ddatblygiad darpariaeth cyfrwng Cymraeg ôl-16.

Mae'r nodyn briffio hwn yn crynhoi ein prif negeseuon a bydd Prif Weithredwr y Coleg Cymraeg Cenedlaethol (y Coleg), Dr Ioan Matthews, yn falch i ymhelaethu ac ateb cwestiynau yn ystod y sesiwn dystiolaeth lafar ar 17 Ebrill 2024.

Tystiolaeth y Coleg (598 gair)

1. Strategaeth ôl-16 Cymraeg a dwyieithog

Yn dilyn adolygiad yn 2017, rhoddwyd gyfrifoldeb i'r Coleg dros y Gymraeg a dwyieithrwydd yn y sector ôl-16. Yn 2019 cyhoeddwyd Cynllun Gweithredu Addysg Bellach a Phrentisiaethau Cymraeg gan y Gweinidog Addysg, Kirsty Williams, sy'n targedu *pawb* yn y sector beth bynnag eu sgiliau Cymraeg (ceir crynodeb yma).

Dengys y tabl islaw y cynnydd ers 2017-18:

Tabl 1 – Gweithgareddau dysgu gydag o leiaf elfen o Gymraeg

| Blwyddyn | Addysg bellach | Dysgu yn y gweithle |
|---|---|---|
| 2017/18 | 9.6% | 13.4% |
| 2018/19 | 11.9% | 15.4% |
| 2019/20 | 11.8% | 14.6% |

| | | |
|---|---|---|
| 2020/21 | 14.7% | 20.8% |
| 2021/22 | 18.2% | 25.3% |

**Ffynhonnell:** https://www.llyw.cymru/cymraeg-2050-adroddiadau-blynyddol

Tra'n cydnabod yr heriau sylweddol sy'n perthyn i ddata ôl-16 Cymraeg, rydym yn falch o'r cynnydd hyd yma ac o'r cydweithio parod rhwng y Coleg, y colegau, darparwyr prentisiaethau a chyrff megis ColegauCymru, NTfW a Cymwysterau Cymru.

2. Cyllid ôl-16 Cymraeg a dwyieithog ac effaith y cyllid hwnnw

Yn sgil y Cytundeb Cydweithio cynyddwyd cyllideb ôl-16 y Coleg:

- 2022-23: £1.5m
- 2023-24: £2.825

O ganlyniad buddsoddwyd yn y prosiectau canlynol:

- Penodwyd 62 ymarferydd addysg bellach a cyllidwyd Coleg Gŵyr Abertawe a Chaerdydd a'r Fro i ddatblygu Prosiectau Cymorth Addysgwyr.
- Penodwyd 21 asesydd prentisiaethau a cefnogwyd is-adeiledd prentisiaethau yn ACT ac yng Ngrŵp NPTC.
- Darparwyd grantiau hyrwyddo i'r darparwyr a noddwyd gwobrau i brentisiaid a dysgwyr.

Roedd ymrwymiad pellach yn y Cytundeb Cydweithio i ddarparu £840,000 ychwanegol yn 2024-25 ond cadarnhawyd yn mis Ionawr na fyddai'r Coleg yn derbyn yr arian ychwanegol.  Cyhoeddodd y Llywodraeth ddogfen yn mis Chwefror yn nodi ymrwymiad i ail-broffilio'r cynnydd yn 2025-26.

Mae cyllideb fflat yn 2024-25 yn caniatáu i'r Coleg gynnal y prosiectau uwchlaw ond ni fydd modd ymestyn a chefnogi gweithgareddau newydd e.e:

- Ehangu yn y meysydd Iechyd a Gofal a Gofal Plant ble mae prinder gweithwyr dwyieithog.
- Datblygu darpariaeth Adeiladwaith ym mhob coleg.

- Penodi aseswyr prentisiaethau tu hwnt i'r meysydd sydd eisoes yn derbyn cefnogaeth.
- Cynnal cynhadledd i staff y sectorau.

3. Argymhellion y Coleg

Wrth ymateb i bedwerydd cwestiwn y Pwyllgor:

"Deall sut y bydd penderfyniadau ynghylch cyllid yn y dyfodol ar gyfer datblygu'r ddarpariaeth Gymraeg ôl-16 yn effeithio ar lwybr a thargedau Cymraeg 2050"

rhaid ystyried y darlun ehangach a'r newidiadau, a'r cyfleoedd, fydd yn dod yn sgil sefydlu'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (CADY).

Mae'r Ddeddf Addysg Drydyddol yn gosod dyletswyddau strategol ar CADY parthed y Gymraeg. Dynodwyd y Coleg i gynghori'r Comisiwn ar y dyletswyddau hyn. Mae datganiad o flaenoriaethau strategol y Llywodraeth wedi'i gyhoeddi hefyd ac yn rhoi pwyslais amlwg ar y Gymraeg. Lansiwyd y Cynllun Gweithredu gwreiddiol bum mlynedd yn ôl felly mae'n amserol ei adolygu er mwyn codi disgwyliadau dros y cyfnod nesaf.

Ceir amlinelliad islaw o'n hargymhellion cychwynnol. Bwriedir eu datblygu dros y misoedd nesaf wrth i'r Coleg ymgymryd â'i rôl statudol i gynghori CADY:

- CADY - Rhaid i CADY weithredu ei ddyletswyddau statudol yn ymwneud â'r Gymraeg yn llawn a defnyddio'i rym fel cyllidwr a rheoleiddiwr i sicrhau, mewn cydweithrediad â'r Coleg, bod darparwyr ôl-16 yn datblygu darpariaeth Gymraeg a dwyieithog sy'n addas ac ar gael i *bawb.*
- Data – Dylai CADY gynnal adolygiad o ddata ôl-16 Cymraeg a dwyieithog. Dylid gosod targedau heriol ar y darparwyr a mesur eu cyrhaeddiad mewn modd ystyrlon. Dylai hyn gydblethu gyda'r Bil Addysg Gymraeg a'r Taflwybr.
- Cyllid – Dylid cynnal adolygiad o'r modd y cyllidir addysg ôl-16 Cymraeg a dwyieithog er mwyn sicrhau bod yr ***holl*** ddarparwyr yn derbyn cefnogaeth i ddatblygu a chynnal darpariaeth Gymraeg a dwyieithog ar lefel addas sy'n gyson gydag uchelgais y Llywodraeth ar gyfer y Gymraeg a Strategaeth 2050.

- **Cymwysterau** – Dylid gweithredu argymhellion adroddiad Sharron Lusher o ran cynyddu'r nifer o gymwysterau galwedigaethol Cymraeg sydd ar gael.